



Pecyn Swydd

**Swyddog Dylunio a Brand Creadigol
Cartrefi Cymunedol Cymru**



Swyddog Dylunio a Brand Creadigol

£30,241 yn cynyddu i £31,833 ar ôl cyfnod prawf 6 mis

Dymunwn gael chwaraewr tîm angerddol, creadigol a gyda ffocws ar ganlyniadau i arwain ar bob gweithgaredd brand, dylunio a chynhyrchu cynnwys digidol yn Cartrefi Cymunedol Cymru.

Rydym yn edrych am arbenigydd ar ddylunio a brand i weithio fel rhan o dîm cyfathrebu deinamig ac uchelgeisiol mewn sector sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol y gallu i ddehongli briffiau a rhoi syniadau strategol ar waith gyda chysyniadau fel bod ein negeseuon yn cyrraedd cynulleidfaoedd a defnyddwyr mewn ffordd ddiddorol, greadigol a gwybodus.

Mae'r swydd yn gyfle gwych i esblygu a chymryd perchnogaeth ar ein darpariaeth brand a chynnwys digidol yn CHC.

Os teimlwch fod yr angerdd, sgiliau a phrofiad gennych i ddiwallu anghenion y swydd hon, dymunwn glywed gennych mewn cyflwyniad fideo! <http://chcymru.org.uk/en/jobs/chc-vacancies/>

Dyddiad Cau: 9am 22 Mawrth

Dyddiad Llunio Rhestr Fer: 26 Mawrth

Dyddiad Cyfweiliadau: 3 Ebrill



Gwybodaeth Gefndir am CHC

Fel y corff ymbarél ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru, rydym yn falch i gynrychioli ein haelodau sy'n darparu cartrefi a gwasanaethau i 10% o boblogaeth Cymru. Ein gwaith yw sicrhau fod y sector yn parhau i ffynnu yng Nghymru ac wedi paratoi ar gyfer y dyfodol.

Ein Gweledigaeth Cymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.

Ein Cenhadaeth Ein cenhadaeth yw galluogi cymdeithasau tai Cymru i fod yn wych.

Ein Nod: Erbyn 2022

- Cael ein hystyried gan aelodau fel corff aelodaeth amhrisiadwy ac effeithlon iawn
- Cael ein cydnabod a'n gwerthfawrogi gan randdeiliaid ac yn defnyddio'r llwyfan i gyflwyno'r achos dros gymdeithasau tai yng Nghymru
- Defnyddio awydd y sector i wneud pethau'n wahanol
- Bod y prif lais ar faterion tai yng Nghymru
- Darparu gwasanaethau ardderchog i aelodau sy'n ychwanegu gwerth ac yn ei gwneud yn haws i aelodau wneud eu gwaith
- Bod yn sefydliad sy'n gynaliadwy yn ariannol.

Ein Blaenoriaethau Strategol

1 Dylanwadu ar amgylchedd gweithredu ein haelodau

2 Dweud stori'r sector

3 Darparu gwasanaethau ardderchog i aelodau

4 Paratoi aelodau ar gyfer y dyfodol

5 Rhedeg sefydliad aelodau gwych

Byddem yn croesawu eich cais os hoffech fod yn rhan o dîm perfformiad uchel sy'n esblygu'n barhaus.



Sut i wneud cais

Llawer o ddiolch am ddangos diddordeb yn y swydd uchod.

Mae'r pecyn swydd yma yn cynnwys y manylion dilynol:

- Disgrifiad swydd, manyleb person a gwybodaeth ar delerau ac amodau.
- Hoffem i chi gynhyrchu ffilm (dim mwy na 60 eiliad) sy'n dweud wrthym pam eich bod yn gwneud cais, a pha sgiliau a phrofiad y byddech yn dod â nhw i'r swydd. Gellir rhannu ffilmiau ar fformat Mp4 neu MPEG. Rydym yn annog creadigrwydd a byddem yn croesawu ffilm sy'n dangos eich sgiliau datblygu cynnwys digidol. Hoffem hefyd weld eich CV (dim mwy na 4 tudalen) wedi ei deilwra i'ch cyflwyniad ar gyfer y swydd.
- Ffurflen cyfle cyfartal. Ni chaiff y ffurflen yma ei defnyddio ar unrhyw gam o'r broses recriwtio, a chaiff ei gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais yn syth ar ôl ei derbyn. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen yma'n parhau yn gyfrinachol a dim ond ar gyfer dibenion monitro i asesu effeithlonrwydd y polisi cyfle cyfartal y caiff ei defnyddio.
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y swydd anfonwch e-bost at rebecca-goodhand@chcymru.org.uk os gwelwch yn dda.

Dylid anfon y ffilm, CV a'r ffurflen cyfle cyfartal wedi'u marcio'n Preifat a Chyfrinachol - Swyddog Dylunio a Brand at:

Julia Sorribes
Cartrefi Cymunedol Cymru
2 Ocean Way
Caerdydd
CF24 5TG

Neu eu e-bostio gyda Preifat a Chyfrinachol - Swyddog Dylunio a Brand Creadigol yn y tab pwnc i julia-sorribes@chcymru.org.uk erbyn 9am 22 Mawrth. Cedwir pob ffurflen am 6 mis yn unol ag arfer gorau i sicrhau y gallwn roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ac i gefnogi'r sefydliad pe byddai hawliad yn ei erbyn.

Cynhelir cyfweiliadau ar 3 Ebrill yn ein swyddfeydd.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cyflwyniad maes o law.

Yn gywir iawn

Phillipa Knowles

Cyfarwyddyd Datblygu Sefydliadol ac Adnoddau



Amlinelliad Buddion

Swydd	Swyddog Dylunio a Brand Creadigol.
Lleoliad	Seiliedig yng Nghaerdydd
Cyflog	£30,241 yn codi i £31,833 ar ôl cyfnod prawf o 6 mis.
Oriau	Mae'r swydd yn seiliedig ar wythnos 35 awr. Rydym yn gweithio'n hyblyg o fewn y sefydliad heb unrhyw oriau craidd a ffocws ar allbynnau gwaith.
Gwyliau	25 diwrnod, yn codi gan un diwrnod am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblheir, hyd at uchafswm o 30 diwrnod a phob gwyliau cyhoeddus. Pedwar diwrnod ychwanegol i ffwrdd yn ystod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
Cyfnod Prawf a Goruchwyliaeth	Chwe mis
Campfa	£25 cymhorthdal y mis
Cynllun Iechyd Arian	Cynllun iechyd arian y talwyd amdano (Simply Health)
Cyfnod Rhybudd	Un wythnos. Ar ôl 6 mis o gyfnod prawf, 4 wythnos
Pensiwn	Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol Cynllun cyfraniadau diffiniedig. Cyfraniadau cyflogwyr o 5%.
Dysgu a Datblygu	Cyllideb unigol
Swyddfeydd	Swyddfeydd modern gyda lleoedd parcio ar y safle.



Swydd: Swyddog Dylunio a Brand Creadigol.

Gradd: Cynghorydd/Arbenigydd Uwch

Adrodd i: Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata

Cyfnod Sefydlog: Llawn-amser

Sail Swyddfa: Caerdydd

Cysylltiadau allweddol

Argraffwyr a chyflenwyr eraill, staff y grŵp, Cymdeithasau Tai, Rhwydwaith Cyfathrebu CHC, Bwrdd CHC ac asiantaethau dylunio/hysbysebu arall.

Prif ddiben

- Arwain ar bob gwaith cynhyrchu brand, dylunio a chynnwys digidol gan sicrhau y caiff gwaith ansawdd uchel ei ddarparu ar draws pob llwyfan print, gwe a digidol..
- Bod yr arbenigydd dylunio o fewn y sefydliad, gan sicrhau fod strategaeth a chysyniadau'n gydnaws gyda blaenoriaethau a chyfeiriad strategol CHC.
- Gweithio fel rhan o'r tîm Cyfathrebu i sicrhau y caiff negeseuon diddorol, gwybodus a chreadigol eu cyfleu i'n holl gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid allweddol.

Tasgau allweddol

- Dehongli briffiau drwy ddealltwriaeth o deithiau defnyddwyr a chynulleidfaoedd, a chynnig dulliau dylunio diddorol i gyflawni amcanion.
- Gweithredu syniadau strategol ac argymhellion ar sut i ddarparu'r gwasanaeth gorau ar gyfer defnyddwyr/cynulleidfaoedd.
- Datblygu cynnwys digidol, print a gwe ansawdd uchel gyda gwybodaeth gref o gynulleidfaoedd a blaenoriaethau strategol CHC.
- Cynnal dealltwriaeth gyfoes o'r dulliau a'r tueddiadau allweddol i lywio dyluniadau ac esblygu brand a chynnwys cyfredol CHC.



- Gweithio gyda'r tîm cyfathrebu i wneud negeseuon cymhleth a thechnegol yn ddiddorol, syml a hygyrch i wahanol gynulleidfaoedd.
- Datblygu canllawiau brand, deunyddiau a hunaniaeth weledol i'r sefydliad a sicrhau fod staff eraill yn cydymffurfio gyda'r canllawiau hyn drwy hyfforddiant, arweiniad a monitro.
- Rheoli a chydlynu elfen argraffu deunydd dylunio CHC gydag argraffwyr a chyflenwyr eraill.
- Sicrhau brand cyson ar draws pob llwyfan print, gwe a chyfryngau cymdeithasol.
- Gweithio'n agos gyda'r timau Cyfathrebu a Pholisi ar ymgyrchoedd penodol.

Arall

- Gweithio'n agos gydag aelodau eraill o staff CHC i sicrhau darparu gwasanaeth effeithlon ar gyfer aelodau.
- Cynnal perthynas effeithlon gyda chydweithwyr a gweithio ar y cyd.



Manyleb Person:

Rhestrir islaw y gofynion sydd eu hangen i ymgymryd â'r swydd hon. Bydd hyn yn ffurfio rhan allweddol o'r broses ddethol a dylai eich gallu i gyflawni'r meini prawf hyn gael eu dangos yn eich CV a'ch cyflwyniad fideo..

Meini Prawf	Gofynion Angenrheidiol
Cymwysterau	<p>Hanfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diploma neu radd mewn Graffeg, Cyfathrebu Gweledol neu faes cysylltiedig, neu brofiad cyfwerth
Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau	<p>Hanfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymryd dull gweithredu sy'n canoli ar y defnyddiwr a phrofi ac ailadrodd dyluniadau yn gyflym. • Cydweithio gydag aelodau eraill o'r tîm a rhanddeiliaid. • Gallu i ofyn cwestiynau craff, cymryd risgiau a hyrwyddo syniadau newydd. • Gallu i gyfathrebu prosesau dylunio, syniadau a datrysiadau yn glir ac yn effeithlon i dimau. • Dealltwriaeth glir o bwysigrwydd dylunio sy'n canoli ar y defnyddiwr a syniadau dylunio i weddu gwahanol gynulleidfaoedd.
Profiad defnyddiwr	<ul style="list-style-type: none"> • Arwain ar gyfeiriad dylunio, argymhellion a chynhyrchu cysyniadau mewn ymateb i friffiau cyfathrebu • Cyflwyno delweddu cysyniadau drwy frasluniau, lluniadau a darluniadau • Integreiddio datrysiadau technegol a gweledol i gysyniad dylunio • Trefnu prosiectau a diffinio cyfyngiadau cyllideb • Profiadol mewn datblygu brand
Dylunio	<ul style="list-style-type: none"> • Profiadol mewn creu cynnwys digidol diddorol ar draws yr holl brif lwyfannau cymdeithasol • Sgiliau ffilm a golygu rhagorol i arwain ein creu cynnwys ffilm i'w ddefnyddio ar draws ein llwyfannau cyfathrebu • Gwybodaeth o'r economi digidol yn ehangach a datblygiadau mewn technoleg
Creu cynnwys	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad perthnasol mewn dylunio a chynhyrchu cynnwys • Profiad o weithio ar ddyluniadau dwyieithog • Profiad o gydlynu gydag argraffwyr / cyflenwyr / asiantaethau hysbysebu • Gwybodaeth a dealltwriaeth o ganllawiau hygrychedd • Gwybodaeth gyfoes o dueddiadau dylunio a'r gallu i'w cyfleu i aelodau eraill y tîm • Hyddysg mewn meddalwedd graffeg megis Adobe Creative Suite: In design, Illustrator a Photoshop • Sgiliau codio hyddysg: HTML a CSS • Portffolio rhagorol sy'n dangos syniadau gwreiddiol, gydag ymrwymiad i allu, gweithrediad a phrofiad trylwyr wrth ddylunio ar gyfer gwahano lwyfannau.



Cyffredinol

- Sgiliau trefnu a chyfathrebu ardderchog
- Gallu i flaenoriaethu a gweithio i amserlenni tyn
- Gallu i weithio o fewn tîm a chyfrannu at nodau ar y cyd
- Sgiliau rhyngberonol ardderchog
- Profiad o weithio mewn amgylchedd dan bwysau
- Sgiliau ardderchog i reoli amser a rheoli prosiectau
- Sgiliau technoleg gwybodaeth effeithlon iawn, yn cynnwys defnydd rhaglenni Microsoft Office
- Agwedd 'gallu gwneud' - gallwch wneud i bethau ddigwydd!
- Gallu i gydlynu a rhwydweithio gydag amrywiaeth o grwpiau a sefydliadau partner
- Cymhelliant a'r gallu i weithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol
- Trylwyrdeb gyda llygad am fanylion
- Hunangymhelliant gyda'r gallu i gymryd yr awenau
- Bod yn agored i dderbyn adborth a beirniadaeth adeiladol

Dymunol

- Profiad mewn dylunio UX - cefnogi tîm craidd gyda gweithrediad cyffredinol cynnyrch (meddwl am ein gwefan yma) ac er mwyn sicrhau profiad gwych i'r defnyddiwr, gwneud newidiadau yn seiliedig ar brofi defnyddiwr
- Trosi cysyniadau yn llifau defnyddiwr, fframiau gwifr, brasfodelau a phrototeipiau sy'n arwain at brofiad defnyddiwr greddfoll ar gyfer ystod eang o ddyfeisiau a rhyngwynebau
- Sgiliau ffotograffiaeth ardderchog gyda gwybodaeth dechnegol
- Gwybodaeth o'r sector tai cymdeithasol
- Profiad o ddylunio a datblygu gwe
- Gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg
- Trwydded yrru a mynediad i gar